

Materion Cyfreithiol

Gall nifer o ofalwyr a'r bobl maent yn gofalu amdanynt gael budd o gyngor cyfreithiol. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig pan fo'r person rydych chi'n gofalu amdano yn ei chael hi'n anodd ymdopi â thasgau pob dydd, oherwydd ei iechyd. Mae rheoli arian, talu am ofal a gwneud penderfyniadau ariannol yn gallu mynd yn anodd ac mewn rhai achosion yn amhosib. Weithiau, mae angen i ofalwyr gymryd cyfrifoldeb am faterion ariannol a chyfreithiol y sawl maent yn gofalu amdano. Gall cynllunio ymlaen llaw arbed amser, ymdrech ac arian.

Fodd bynnag, mae sefydliadau'n bodoli sy'n arbenigo mewn darparu cyngor a gwybodaeth a all eich helpu gyda'r materion hyn, er enghraifft:

- **Age Cymru** – mae ganddynt linell wybodaeth a chyngor am ddim – **08000 223 444**. Mae ganddynt hefyd nifer o daflenni ffeithiol, yn cynnwys un ar faterion cyfreithiol, a gellir cael gafael ar y rhain drwy ffonio'r rhif rhadffôn neu drwy ymweld â gwefan Age Cymru, <https://www.ageuk.org.uk/cymru/>
- **Cyngor ar Bopeth (CAB)** – gallant helpu gyda phroblemau cyfreithiol, ariannol ac eraill trwy ddarparu gwybodaeth am ddim a chyngor cyfrinachol – **0808 27 87 922**.
- Mae **Shelter** yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar faterion tai, dyled, cyllidebu – **08000 495 495**
- Mae'r **Cyngor Cyfreithiol Sifil (CLA)** yn darparu gwybodaeth, cymorth a chyngor am ddim ar amrywiaeth o faterion cyfreithiol cyffredin i unrhyw un sy'n cymwys am Gymorth Cyfreithiol. Ymwelwch â www.gov.uk/civil-legal-advice i gael gwybod a ydych chi'n gymwys neu ffoniwch 0345 345 4 345 (minicom: 0345 609 6677). Gallwch decstio 'legalaid' a'ch enw i 80010 i dderbyn galwad yn ôl. Mae'n costio'r un fath fel neges testun arferol.

Mae'r pethau y gallech fod angen ymdrin â hwy yn cynnwys:

Cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu – gellir newid cyfrifon i gyfrifon ar y cyd neu gallwch lunio 'mandad trydydd parti'. Cysylltwch â'r banc neu gymdeithas adeiladu berthnasol.

Ewyllysiau a Chynllunio Ystadau – gwneud ewyllys yw un o'r pethau pwysicaf a wnewch. Mae'n sicrhau, ar ôl eich marwolaeth, bod eich eiddo ac asedau eraill yn trosglwyddo i berthnasau, ffrindiau ac elusennau rydych chi'n dewis eu henwebu. Fel arall, gall perthnasau eraill neu sefydliadau nad oeddech yn dymuno eu henwebu fod â hawl i siâr o'ch ystâd. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno sefydlu ymddiriedolaeth i

Materion Cyfreithiol

gefnogi plentyn anabl ar ôl i chi farw. Os na wnewch ewyllys, eich perthynas agosaf fydd yr unig berson fydd â hawl awtomatig i weinyddu eich ystâd. Gallai hyn fod yn anodd os yw'r person yn rhy hen neu fregus i wneud hynny.

Gall person ysgrifennu ei ewyllys ei hun. Fodd bynnag, os na chaiff ei wneud yn iawn, gall problemau godi. Mae'n well cysylltu â chyfreithiwr neu ysgrifennwr ewyllysiau. Cysylltwch â'r *Society of Will Writers* ar **01522 687888** neu'r *Law Society* ar **029 2064 5254** am fwy o gyngor a gwybodaeth.

Os nad yw'r person rydych chi'n gofalu amdano yn gwneud ewyllys, ac nad ydych chi fel gofaluwr di-dâl yn credu ei fod wedi darparu'n rhesymol ar eich cyfer, mae'n bosib y gallech wneud hawliad dan Ddeddf Darpariaeth i Deuluoedd a Dibynyddion 1975 am ddarpariaeth ariannol resymol. Am fwy o wybodaeth ynghylch hyn, cysylltwch â'ch cyfreithiwr neu Cyngor ar Bopeth.

Pŵer Atwrnai – cyn y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, dim ond Atwrnai Parhaus (EPA) oedd modd ei ddefnyddio. Roedd hyn yn caniatáu i berson benodi rhywun arall i wneud penderfyniadau ar gyllid ac eiddo yn y dyfodol pe bai'r person yn colli ei alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau o'r fath ei hun. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn ymgorffori'r hawl i berson benodi Atwrnai Arhosol Cofrestredig (LPA) yn hytrach na EPA. Mae dau fath o LPA; mae un yn ymdrin ag eiddo a chyllid, a'r llall yn ymdrin â lles personol. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus – **0300 456 0300**. Am wybodaeth ynglŷn â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, ac i lawr lwytho ffurflenni a chanllawiau ar gyfer yr LPA a'r EPA, ewch i wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-public-guardian (Mae ffurflenni ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg).